Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Triniaethau Arbennig

Cyflwyno'r Cynllun Trwyddedu Gorfodol yng Nghymru

Cylchlythyr Ymarferydd Rhif 6

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae ein Dogfen Ymgynghori wedi'i chyhoeddi!

[Trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU]

Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol ein bod bellach wedi lansio ein dogfen ymgynghori sy'n nodi ein cynigion ar gyfer y cynllun trwyddedu yng Nghymru.

Dyma eich cyfle i ddweud eich dweud am ein cynigion ac mae gennych hyd at 19 Ebrill i ymateb. Hoffem annog ymarferwyr i lenwi a chyflwyno'r ffurflen adborth, sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen uchod. I'ch helpu i gymryd rhan, mae nifer o awdurdodau lleol yn trefnu gweithdai ymgynghori lle bydd Sarah Jones yn esbonio'r cynigion:

Mae Rhondda Cynon Taf a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (Penybont-ar-Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg) yn cynnal gweithdai rhithwir. Gall unrhyw ymarferydd sy'n gweithredu yng Nghymru fynychu'r digwyddiadau hyn. Os nad yw eich cyngor yn cynnal gweithdy, mae croeso i chi fynychu un o'r digwyddiadau hyn:

- Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnal gweithdy rhithwir ddydd Mawrth 7 Mawrth 18:00 – 20:00 ac mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn y broses o gadarnhau'r dyddiadau ar gyfer dau weithdy.
- Mae Blaenau Gwent yn cynnal gweithdy wyneb yn wyneb ar gyfer eu hymarferwyr ddydd Llun 6 Mawrth ac mae Casnewydd yn cynnal gweithdy tebyg ddydd Mercher 8 Mawrth. Bydd y ddau ddigwyddiad yn cael eu cynnal yn gynnar gyda'r nos.
- Cynhaliodd y cynghorau yng Ngogledd Cymru dri gweithdy rhithwir ddydd Llun 13 Chwefror.

Rhowch wybod i Sarah Jones os oes diddordeb gennych mewn mynychu un o'r gweithdai Sarah.Jones058@llyw.cymru

Nid oes rhaid i chi fynychu gweithdy er mwyn gallu ymateb i'r ymgynghoriad.

Dyfarniad Cymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig

Darperir manylion y cyrsiau a diweddariadau gan y canolfannau hyfforddi cymeradwy isod:

- **Cyngor Cymwysterau ar gyfer Gweithdrefnau Cosmetig**

Mae'r Cyngor yn cynnig profiad ar-lein hollgynhwysol i ddysgwyr sydd ar gael ble bynnag a phryd bynnag y mae ei angen arnoch.

Mae ein dull o gyflwyno yn golygu nad oes angen i chi dreulio oriau mewn ystafell ddosbarth ac mae'n darparu taith unigryw dan arweiniad i ddysgwyr sy'n eich galluogi i ddysgu ar eich cyflymder eich hunain gyda'n platfform e-ddysgu wedi'i deilwra.

Bydd y platfform yn fyw ddiwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth, a gallwch fynegi eich diddordeb heddiw.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth Lefel 2 - (qccp.org.uk)

- **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR)**

Cynhelir ein sesiynau hyfforddi nesaf:

- Ddydd Llun 13 Mawrth 2023, Swyddfeydd Dinesig, y Bari (Tatŵyddion a thyllwyr)
- Dydd Llun 17 Ebrill, Neuadd y Ddinas, Caerdydd (Tatŵyddion a thyllwyr)
- Dydd Llun 15 Mai, Swyddfeydd Dinesig, y Bari (Therapyddion harddwch a aciwbigwyr)
- Dydd Iau 25 Mai, Neuadd y Ddinas (Tatŵyddion a thyllwyr)

Mae'r holl fanylion am ein cwrs hyfforddi, y costau a sut i gadw lle, ar gael ar ein gwefan: Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (srs.wales)

Rydym wedi cyflwyno dwy sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb hyd yn hyn ac mae 100% o fynychwyr wedi pasio. Mae adborth gan gynrychiolwyr yn cynnwys sylwadau megis:

> 'Diolch gymaint!! Rydych wedi bod yn help mawr iawn drwy gydol y broses hon. Mae wedi bod yn bleser. Roedd y cwrs cyfan yn llawer o hwyl.'
>
> 'Roedd yn brofiad gwych ac rwyf mor falch ein bod wedi mynychu'

- Mae **Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Nhorfaen** yn agos at gadarnhau dyddiadau ar gyfer eu cyrsiau hyfforddi. Gall ymarferwyr fynegi eu diddordeb drwy e-bostio rachel.richards@torfaen.gov.uk

- Bydd **Coleg Llandrillo** yn cyflwyno cwrs wyneb yn wyneb mewn un diwrnod ar gampws Rhos o'r wythnos sy'n dechrau ar 20 Mawrth. Bydd y cwrs yn costio £125.00. Dylai ymarferwyr sydd â diddordeb e-bostio: **duller1l@gllm.ac.uk** i fynegi eu diddordeb. Cânt eu hychwanegu at y rhestr aros a chaiff manylion y cwrs eu hanfon atynt.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyfarniad ar gael yn:

RSPH | Level 2 Award in Infection Prevention and Control for Special Procedures Practitioners
[Saesneg yn unig]